Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

CYLCH GORCHWYL TECHNOLEG IECHYD CYMRU (HTW)

Trefniadau Gweithredu a Chylch Gorchwyl

Dyddiad Dod i Rym	1 Mawrth 2019
Cymeradwywyd Gan	Panel Arfarnu
Dyddiad Adolygu	1 Ebrill 2020
Awdur Arweiniol	Cyfarwyddwr, Technoleg Iechyd Cymru
Fersiwn	1.0

1. CEFNDIR

1.1. Mae technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau yn cwmpasu ystod eang o ymyriadau gofal iechyd, sy'n amrywio o ddyfeisiau a phrofion diagnostig i newidiadau mewn llwybrau triniaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

1.2. Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) gan Lywodraeth Cymru i gefnogi dull strategol a chenedlaethol ar gyfer canfod, arfarnu a mabwysiadu (yn cynnwys dadfuddsoddiad) technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau i mewn i GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau meddygol, gweithdrefnau llawfeddygol ac ystod o ymyriadau eraill e.e. therapïau seicolegol ac adsefydlu.

1.3. Er mwyn rhoi cymorth i GIG Cymru gyda'i benderfyniadau o ran mabwysiadu technoleg iechyd, bydd HTW yn defnyddio dulliau Asesu Technoleg Iechyd i greu Adroddiadau Arfarnu Tystiolaeth annibynnol a Chanllawiau cysylltiedig sy'n amlinellu cyngor wedi'i lywio gan dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd clinigol a chost technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau.

1.4. Gan ddilyn prosesau cymeradwyedig i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, bydd HTW yn cyhoeddi Canllaw cenedlaethol ar gyfer Cymru. Bydd yn crynhoi effeithiolrwydd clinigol a chost y dechnoleg ochr yn ochr â gwybodaeth gyd-destunol berthnasol ac unrhyw ofyniad ar gyfer ymchwil pellach er mwyn llywio'r penderfyniadau a wneir.

1.5. Cyllidir HTW gan Lywodraeth Cymru ac fe'i lletyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Dylid nodi bod y gweithgarwch Panel Arfarnu a Chanllawiau HTW yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

1.6. Mae rhagor o fanylion am rôl a chylch gwaith HTW i'w chael yn Atodiad 1 ac mewn fideo y gellir ei weld yma:

http://www.healthtechnology.wales/about-us-video/

1.7. Cytunwyd ar aelodaeth Panel Arfarnu HTW yn ei gyfarfod cyntaf yn 2017. Mae aelodau yn cynrychioli holl fyrddau GIG Cymru yn ogystal ag ystod o grwpiau rhanddeiliaid allweddol eraill. Gellir gweld aelodaeth bresennol grwpiau allweddol HTW ar wefan HTW y gellir mynd iddi drwy'r ddolen ganlynol: http://www.healthtechnology.wales/about/

2. RHAGYMADRODD

2.1. Mae'r ddogfen Cylch Gorchwyl hon yn disgrifio'r trefniadau gweithredol ar gyfer rheoli gwaith Grŵp Llywio, Panel Arfarnu a Grŵp Asesu Technoleg Iechyd Cymru (HTW).

2.2. Bydd holl aelodau grwpiau'r HTW wedi'u rhwymo gan y trefniadau a nodir yn y ddogfen hon ac mae disgwyl iddynt hefyd gadw at Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Ymddiriedolaeth GIG Felindre, sy'n cynnwys saith egwyddor bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

2.3. Gellir cyfethol aelodau ychwanegol i'r grwpiau a enwir uchod yn ôl y gofyn, ac yn ôl disgresiwn Cadeirydd HTW a Chyfarwyddwr HTW. Disgwylir i'r holl aelodau a gyfetholir gadw at y cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredol a fydd yn cael eu rhannu yn y sesiwn ymsefydlu ar gyfer y grŵp perthnasol.

3. CWMPAS

3.1. Sefydlwyd HTW i gefnogi dull strategol a chenedlaethol ar gyfer canfod, arfarnu a mabwysiadu (yn cynnwys dadfuddsoddiad) technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau meddygol, gweithdrefnau llawfeddygol ac ystod o ymyriadau eraill e.e. therapïau seicolegol ac adsefydlu.

3.2. Nid yw cylch gwaith HTW yn cynnwys meddyginiaethau a adolygir gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG).

4. TREFNIADAU ATEBOLRWYDD

4.1. Noddir HTW gan Lywodraeth Cymru ac fe'i lletyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Fodd bynnag, mae'n annibynnol ar y ddau o ran prosesau, adroddiadau arfarnu tystiolaeth a Chanllawiau'r Grŵp Asesu a Phanel Arfarnu.

4.2. Yn benodol, cyllidir HTW drwy ddyfarniad grant Cyllid Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg (ETTF X.481.XTT) sy'n amlinelu'r amodau ar gyfer cyllido, dibenion a thargedau sy'n gysylltiedig â'r cyllido.

4.3. Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Felindre yw'r swyddog atebol ar gyfer HTW i Lywodraeth Cymru.

5. AWDURDOD HTW

5.1. Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) drwy argymhelliad Gweinidogaethol[1,2] i gefnogi dull strategol a chenedlaethol ar gyfer canfod, arfarnu a mabwysiadu technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal.

5.2. Mae sefydliadau GIG Cymru wedi nodi uwch gynrychiolaeth o'u Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaeth perthnasol i fod yn aelod o Banel Arfarnu HTW. Bydd y Panel Arfarnu yn cynhyrchu Canllaw cenedlaethol sy'n amlinellu Canllaw HTW sef 'gan GIG Cymru, ar gyfer GIG Cymru'.

5.3. Statws Canllaw HTW yw 'mabwysiadu neu gyfiawnhau'. Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru bod Canllaw HTW yn cael ei roi ar waith gyda mabwysiadu yn cael ei archwilio'n rheolaidd gan HTW.[3]

5.4. Mae HTW o fewn cylch gwaith Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS). Cynllun hunansicrwydd cydfuddiannol yw hwn ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru ac fe'i lletyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

6. PROSESAU ATGYFEIRIO, TYSTIOLAETH, ADOLYGIADAU A CHANLLAWIAU PWNC HTW

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru. Rhagfyr 2014.
[2] Ymateb i Argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymchwiliad i Fynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru. Chwefror 2015.
[3] Gething, V. Llythyr at holl Gadeiryddion Byrddau Iechyd parthed cyllido ar gyfer Ysgogiad y Nerf Sacrol yng Nghymru. VG_01655_17. Medi 2017.

6.1. Mae HTW yn gweithredu proses atgyfeirio pwnc gydol y flwyddyn gyda galwadau ychwanegol wedi'u targedu neu ar ychwanegol, yn ôl y galw. Gall unrhyw un gyflwyno ffurflen ymholiad/cynnig pwnc - Byrddau/Ymddiriedolaeth GIG Cymru, clinigwyr, ymarferwyr gofal cymdeithasol, sefydliadau cleifion neu wirfoddol, gwneuthurwyr technoleg ac aelodau o'r cyhoedd.

6.2. Caiff yr holl atgyfeiriadau pwnc a dderbynnir eu hadolygu gan Grŵp Asesu HTW er mwyn penderfynu a yw'r pwnc o bosibl yn addas ar gyfer ystyriaeth bellach o dan raglen waith HTW. Seilir y gwaith sgrinio hwn ar y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ffurflen ymholiad/cynnig pwnc, wedi'i hategu gan adroddiad archwiliad pwnc a wneir gan Ymchwilwyr HTW, a chyflwyniad gan y sawl sy'n atgyfeirio'r pwnc.

6.3. Unwaith ei fod wedi'i dderbyn ar y rhaglen waith, gall HTW gynhyrchu ystod o gynhyrchion adolygu tystiolaeth, yn cynnwys adolygiadau cyflym (Adroddiadau Arfarnu Tystiolaeth), adolygiadau systematig ac Asesiadau Technoleg Iechyd llawn. Seilir adolygiad tystiolaeth HTW ar chwiliad llenyddiaeth systematig o dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi er mwyn canfod y dystiolaeth glinigol ac economaidd orau. Caiff hon ei harfarnu'n feirniadol gan ymchwilwyr a rhoddir adolygiad tystiolaeth drafft i arbenigwyr ar gyfer ei adolygu a'i drafod gan grwpiau cynghori amlddisgyblaeth Technoleg Iechyd Cymru.

6.4. Bydd Grŵp Asesu HTW yn adolygu'n feirniadol yr adroddiadau tystiolaeth a gyflwynir gan Ymchwilwyr HTW, ochr yn ochr ag arbenigwyr allanol annibynnol.

6.5. Yn ystod cyfarfodydd Panel Arfarnu HTW, bydd aelodau'r Panel yn cytuno ar gynnwys y Canllaw cenedlaethol. Cynhyrchir a chyhoeddir Canllaw cenedlaethol i gyd-fynd â phob cynnyrch yr adolygir ei dystiolaeth.

6.6. Mae Canllaw HTW yn amlinellu, mewn modd mor gyson â phosibl, farn HTW ar effeithiolrwydd clinigol, diogelwch ac effeithiolrwydd cost tystiolaeth ar gyfer y dechnoleg dan sylw yng nghyd-destun Cymru.

6.7. Statws Canllaw HTW yw 'mabwysiadu neu gyfiawnhau' - hynny yw, mae disgwyl i'r GIG neu'r sector gofal perthnasol roi ystyriaeth i'r canllaw a bydd yn cael ei archwilio'n rheolaidd i asesu eu bod yn mabwysiadu canllaw technoleg HTW.

6.8. Bwriedir i Ganllaw HTW gynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau y sector gofal i wneud penderfyniadau sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth wrth benderfynu ar le technolegau iechyd ar gyfer defnydd lleol ac felly gwella ansawdd gwasanaethau gofal. Cydnabyddir mai dim ond un o'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer penderfyniadau a chynllunio yw tystiolaeth.

6.9. Nid yw Canllawiau HTW yn drech na chyfrifoldeb unigol gweithwyr gofal proffesiynol i wneud penderfyniad wrth arfer eu barn broffesiynol parthed amgylchiadau y claf/cleient unigol, mewn ymgynghoriad ag ef neu hi a/neu'r gwarcheidwad neu ofalwr.

6.10. Mae rhagor o wybodaeth am y cyd-destun a chyfrifoldebau'n ymwneud â Chanllaw HTW yn Atodiad 2.

6.11. Mae proses arfarnu HTW yn un ymgynghorol ac amlddisgyblaeth. Ei nod yw creu pont rhwng tystiolaeth wyddonol, barn gweithwyr gofal proffesiynol, safbwyntiau cleifion, cleientiaid a'r cyhoedd, ac anghenion llunwyr polisi.

7. YMGYSYLLTIAD CLINIGOL AC EHANGACH

7.1. Mae ymgysylltu gweledol a gweithredol yn ganolog i lwyddiant HTW a bydd yn cefnogi darpariaeth gofal effeithiol, o ansawdd i ddefnyddwyr gwasanaeth. Disgwylir i aelodau HTW ymgynghori gyda'u grwpiau a'u rhwydweithiau proffesiynol pan a phryd y bo hynny'n briodol.

7.2. Mae HTW yn gweithio ar y cyd gyda nifer o grwpiau clinigol a phroffesiynol cenedlaethol (e.e. rhwydweithiau clinigol, Grŵp Cyswllt Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)) ochr yn ochr yn ochr â gwahanol grwpiau o arbenigwyr ar lefel genedlaethol a strategol (e.e. Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)).

7.3. Bydd ysgrifenyddiaeth HTW a'r Grŵp Asesu yn ymgysylltu grwpiau clinigol o arbenigwyr a grwpiau perthnasol eraill ar bob cam o'i waith (sganio'r gorwel, dewis pwnc, adolygu tystiolaeth, datblygu a dosbarthu canllawiau).

8. CYNNAL BUSNES

8.1. Mae HTW yn gwerthfawrogi cyfraniad yr aelodau hynny sy'n gwasanaethu ar ei Banel Arfarnu a'i weithgorau/is-grwpiau. Heb eu gwasanaeth a'u hymrwymiad ni fyddai'n bosibl cyflawni swm ac amrywiaeth y gwaith sy'n cyfrannu at wella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru. Rhaid i HTW gynnal enw da ar gyfer ansawdd ei weithgareddau ac mae'n rhagweld y bydd holl aelodau HTW yn cydymffurfio â gofynion parthed polisïau sefydliadol.

8.2. Weithiau, gall fod amgylchiadau pan fydd angen i benderfyniadau a fyddai fel arfer yn cael eu gwneud gan y cyfarfod perthnasol gael eu gwneud rhwng cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu. Mewn amgylchiadau o'r fath gall y Cadeirydd, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr HTW, ymdrin â'r mater ar ran y Grŵp perthnasol, ar ôl ymgynghori'n gyntaf â'r Swyddog Atebol. Rhaid i Gyfarwyddwr HTW sicrhau bod unrhyw weithredu o'r fath yn cael ei gofnodi'n ffurfiol a'i adrodd wrth y cyfarfod nesaf ar gyfer ei ystyried a'i gadarnhau.

8.3. Ni all y Cadeirydd weithredu ar frys pan fo gan y Cadeirydd fuddiant personol neu fusnes yn y mater brys sydd angen penderfyniad.

8.4. Mae HTW wedi ymrwymo i berthynas agored a thryloyw gyda'r diwydiant gofal iechyd. Caiff pob menter gydweithio ei hwyluso gan Fforwm Grŵp Defnyddwyr y Diwydiant HTW a'i harwain gan bolisi GIG Cymru ar weithio gyda'r diwydiant.

9. DATGAN BUDDIANNAU

9.1. Mae gofyn i holl aelodau HTW wneud datganiad llawn o fuddiannau pan gânt eu penodi, ac yn flynyddol wedi hynny, yn unol â 'Chod ymarfer ar ddatgan buddiannau' HTW. Os nad yw aelod yn siŵr a ddylai ddatgan buddiant ai peidio, dylai ef neu hi geisio arweiniad gan Gadeirydd y pwyllgor perthnasol. Y rheol gyffredinol yw os oes amheuaeth - gwnewch ddatganiad. Cyfrifoldeb yr aelod yw diweddaru ac ailgyflwyno ei ffurflen Datgan Buddiannau i HTW yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn.

9.2. Mae'r Cadeirydd yn gwneud yn siŵr y craffir ar ffurflenni datgan buddiannau gan holl aelodau HTW yn flynyddol o leiaf ac y trafodir unrhyw fater o bryder gyda'r unigolyn dan sylw a/neu Grŵp Llywio HTW.

9.3. Bydd ysgrifenyddiaeth HTW yn cadw cofrestri canolog o'r holl fuddiannau a ddatganwyd ar gyfer aelodau HTW ac aelodau'r Grŵp Asesu. Bydd Cyfarwyddwr HTW yn llenwi ffurflen datgan buddiannau blynyddol a fydd yn cael ei chyflwyno i Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'i hadrodd wrth Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth.

9.4. Mae gofyn i holl aelodau HTW ddatgan buddiannau perthnasol ymhob cyfarfod, waeth a yw'r buddiannau hynny wedi cael eu datgan wrth HTW yn flaenorol a'i pheidio. Os bydd mater yn codi ar gyfer ei drafod a bod aelod yn poeni am fater a allai gael ei ystyried fel un sy'n effeithio ar ba mor ddiduedd ydyw ac nad yw'r mater hwn wedi cael ei ddatgan eisoes, rhaid iddo ef neu hi godi hyn gyda'r Cadeirydd cyn gynted â phosibl.

9.5. Rhaid i'r Cadeirydd hefyd sicrhau y gofynnir i aelodau ar ddechrau pob cyfarfod ddatgan buddiannau, ac mae disgwyl iddo ef neu hi ddefnyddio ei farn/barn wrth gynnal busnes HTW pe bai posibilrwydd o wrthdaro buddiannau.

10. CYFRINACHEDD

10.1. Fel rhan o weithgarwch HTW, efallai y bydd aelodau yn dyst i wybodaeth sy'n fasnachol sensitif a chyfrinachol wrth gyfranogi mewn grwpiau perthnasol. Mae HTW yn parchu natur gyfrinachol y wybodaeth a rennir fel elfen sylfaenol y gweithgarwch a bydd yn gofyn i'w aelodau drin unrhyw weithgarwch y gallent arsylwi arno, neu unrhyw wybodaeth y gallent gael gwybod amdani, naill ai drwy sgwrs, dogfen neu lythyr neu ar system gyfrifiadurol, gyda'r cyfrinachedd mwyaf. Rheolir rhai agweddau ar gyfrinachedd gan ddeddfwriaeth a chanllawiau. Y rhai mwyaf nodedig yw:

- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Mynediad at Adroddiadau Meddygol 1990
- Egwyddorion Caldicott

10.2. Gofynnir i holl Ysgrifenyddiaeth, Cadeirydd ac aelodau grwpiau HTW i arwyddo cytundeb cyfrinachedd.

10.3. Bydd cyfarfodydd Panel Arfarnu yn cael eu recordio gyda chysyniad llafar yr aelodau. Bydd recordiadau cyfarfodydd yn cael eu cadw hyd nes y bydd cofnodion y cyfarfod wedi eu cymeradwyo ac fe'i dinistrir wedi hynny.

11. YSGRIFENYDDIAETH HTW

11.1. Cyflogir ysgrifenyddiaeth HTW gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac fe'i rheolir gan Bolisïau a Gweithdrefnau a threfniadau cytundebol Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

11.2. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn rheoli pob agwedd ar raglen waith, Grŵp Llywio, Panel Arfarnu a Grŵp Asesu HTW, yn cynnwys trefnu dyddiadau/lleoliadau cyfarfodydd, drafftio a dosbarthu papurau a llunio cofnodion, cadw cofnodion at ddibenion archwiliad.

12. RÔL CYFARWYDDWR HTW

12.1. Mae Cyfarwyddwr HTW yn atebol i Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Cyflawni rhaglen waith HTW gyda'r staff â'r adnoddau ariannol sydd ar gael
- Bod â chyfrifoldeb ac atebolrwydd ariannol am gyllideb HTW
- Canfod y gymysgedd staff briodol
- Datblygu, a chadw at, fethodolegau HTW yn unol ag arfer gorau presennol a datblygiadau newydd, fel yr amlinellir yn y gyfres o adolygiad tystiolaeth a gweithdrefnau gweithredu safonau cysylltiedig
- Sicrhau ymgysylltiad clinigol, gyda chleifion ac ymgysylltu perthnasol arall yn holl weithgareddau HTW
- Datblygu a gweithredu mecanweithiau sicrwydd ansawdd
- Comisiynu partneriaid allanol, pan fo angen, i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael er mwyn cynnal rhaglen waith HTW

13. RÔL CADEIRYDD Y PANEL ARFARNU

13.1. Penodir y Cadeirydd drwy broses penodiadau cyhoeddus ffurfiol Grŵp Cynghori Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Penodir y Cadeirydd am gyfnod o 2 flynedd. Gall y cyfnod hwn gael ei adnewyddu ar argymhelliad Grŵp Llywio HTW gyda chytundeb y Cadeirydd, a'i gorff/chorff enwebu neu gyflogi, am dymor o 2 flynedd arall. Gellir gweld rôl y Cadeirydd yn Atodiad 3.

13.2. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am gyfeiriad, ymddygiad, cynnydd a chwblhad busnes HTW, yn ystod a rhwng cyfarfodydd. Ar gyfer y dasg hon cefnogir ef neu hi gan Gyfarwyddwr, Grŵp Llywio a Grŵp Asesu HTW. Mae gofyn am ymrwymiad am gyfartaledd o un diwrnod yr wythnos (0.2 WTE).

13.3. Cyn y penodir y Cadeirydd, gofynnir iddo ef neu hi gyflwyno ffurflen datgan buddiannau. Cyflwynir hon i'r Grŵp Llywio ar gyfer cymeradwyaeth cyn y cadarnheir penodiad.

13.4. Mae'r cadeirydd yn atebol i'r Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru (Dr. Frank Atherton).

14. RÔL YR IS-GADEIRYDD

14.1. Penodir yr Is-gadeirydd gan Grŵp Llywio HTW am gyfnod o ddwy flynedd.

15. CYLCH GORCHWYL GRWPIAU IECHYD TECHNOLEG CYMRU

15.1. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y grwpiau canlynol ar gael ar wefan HTW:

- Grŵp Llywio HTW http://www.healthtechnology.wales/about/steering-group/
- Panel Arfarnu HTW http://www.healthtechnology.wales/about/appraisal-panel/
- Grŵp Asesu HTW http://www.healthtechnology.wales/about/assessment-group/
- Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt HTW http://www.healthtechnology.wales/about/signposting-group/
- Grŵp Partneriaid Cyhoeddus HTW (I'w gadarnhau)
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mabwysiadu HTW (I'w gadarnhau)

15.2. Mae'r Ffeithlun yn Atodiad 4, yn dangos strwythur cyfarfodydd HTW.

Atodiad 1 – Rôl a Chylch Gorchwyl HTW

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

ADNABOD

- Ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gofal iechyd a datblygwyr technoleg ar draws Cymru.
- Sganio'r gorwel i nodi technolegau sydd ar y gweill a allai gael effaith fawr ar Gymru yn y dyfodol.
- Cyfeirio datblygwyr technolegau at sefydliadau sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth.

ARFARNU

- Llunio adroddiadau arfarnu sy'n crynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael ar datblygwyr technolegau, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr.
- Darparu canllawiau awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch a ddylent fabwysiadu technoleg neu beidio.
- Adeiladu dysgu a sgiliau ym maes asesu datblygwyr technolegau iechyd, gan gynnwys arfarnu tystiolaeth glinigol ac economaidd, a thystiolaeth ar ddiogelwch.

MABWYSIADU

- Monitro'r defnydd o ganllawiau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys canllawiau HTW a chanllawiau gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.
- Gwneud argymhellion ar flaenoriaethau ymchwil i wella'r dystiolaeth sydd ar gael.
- Annog pobl i ddefnyddio technolegau effeithiol, ac i ddadfuddsoddi mewn technolegau nad ydynt yn effeithiol rhagor.

Rhagor o wybodaeth

Gwefan	www.healthtechnology.wales
Rhif ffôn	+44 (0)29 2046 8947
Trydar	twitter.com/HealthTechWales
LinkedIn	www.linkedin.com/company/healthtechnologywales/

Atodiad 2 – Cyfrifoldebau ar gyfer Ystyried Canllawiau HTW

Cyfrifoldebau ar gyfer ystyried y Canllaw hwn

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) drwy argymhelliad Gweinidogaethol[1,2] i gefnogi dull strategol a chenedlaethol ar gyfer canfod, arfarnu a mabwysiadau technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal. Mae Panel Arfarnu HTW yn cynnwys uwch gynrychiolaeth o holl fyrddau Cymru ac mae ganddo awdurdod dirprwyedig i gynhyrchu canllawiau 'gan GIG Cymru, ar gyfer GIG Cymru'. Statws Canllawiau HTW yw 'mabwysiadu neu gyfiawnhau'. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod Canllawiau HTW yn cael eu rhoi ar waith, gyda'r mabwysiadu'n cael ei archwilio'n rheolaidd gan HTW.[3]

Bwriedir i'r canllaw yn y ddogfen hon gynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau yn y system gofal yng Nghymru i wneud penderfyniadau sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth wrth benderfynu ar le technolegau iechyd ac felly gwella ansawdd gwasanaethau gofal.

Seiliwyd cynnwys y canllaw HTW hwn ar y dystiolaeth a'r ffactorau oedd ar gael pan y'i cyhoeddwyd. Adolygwyd sail tystiolaeth ryngwladol ac ymgynghorwyd ag arbenigwyr allanol yn y pwnc ac aelodau pwyllgorau HTW er mwyn rhoi'r dystiolaeth oedd ar gael yng nghyd-destun Cymru. Gofynnir i ddarllenwyr ystyried cyffredinoled y dystiolaeth a adolygwyd i GIG Cymru ac y gallai treialon a thechnolegau newydd fod wedi dod i'r amlwg ers y cyhoeddiad cyntaf ac efallai na fydd y dystiolaeth a gyflwynir yn gyfredol mwyach. Cydnabyddir mai dim ond un o'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer penderfyniadau a chynllunio yw tystiolaeth.

Nid yw Canllawiau HTW yn drech na chyfrifoldeb unigol gweithwyr gofal proffesiynol i wneud penderyfniad wrth arfer eu barn broffesiynol parthed amgylchiadau y claf/cleient unigol, mewn ymgynghoriad ag ef neu hi a/neu'r gwarcheidwad neu ofalwr.

Ni ellir defnyddio unrhyw ran o'r canllaw hwn heb i'r canllaw cyfan gael ei ddyfynnu'n llawn. Mae'r canllaw hwn yn cynrychioli barn HTW ar y dyddiad a nodir. Ni chaiff canllaw HTW ei ddiweddaru fel mater o drefn. Fe all, fodd bynnag, gael ei ystyried ar gyfer ei adolygu os bydd rhanddeiliaid yn gofyn am hynny, yn seiliedig ar argaeledd tystiolaeth newydd a gyhoeddir sy'n debygol o newid yn sylweddol yr arweiniad a roddir.

Mae gweithdrefnau gweithredu safonol sy'n amlinellu dulliau adolygu tystiolaeth HTW a fframwaith ar gyfer cynhyrchu ei ganllaw ar gael ar wefan HTW.

Diolchiadau. Hoffai HTW ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau sydd wedi darparu sylwadau ar yr Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth neu ganllaw'r HTW.

Gofynnwyd i'r holl adolygwyr ddatgan eu buddiannau. Caiff yr holl gyfraniadau gan adolygwyr eu hystyried gan Grŵp Asesu HTW. Fodd bynnag, ni fu gan adolygwyr unrhyw rôl mewn rheolaeth o ran awduraeth neu olygyddiaeth a'r farn a fynegir yw un Technoleg Iechyd Cymru.

Cadeirydd, Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru. Rhagfyr 2014.
2. Ymateb i Argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymchwiliad i Fynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru. Chwefror 2015.
3. Gethin, V. Llythyr at holl Gadeiryddion Byrddau Iechyd parthed cyllido ar gyfer Ysgogiad y Nerf Sacrol yng Nghymru. VG_01655_17. Medi 2017.

(cc) BY-NC-SA Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0.

Atodiad 3 – Rôl Cadeirydd Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru

Rôl uwch weithiwr gofal proffesiynol yw hon sy'n darparu arweinyddiaeth hollbwysig i Technoleg Iechyd Cymru (HTW). Mae'n cynorthwyo i benderfynu ar gyfeiriad strategol Technoleg Iechyd Cymru i gyflawni dull strategol, wedi'i gydlynu ar gyfer canfod, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau mewn lleoliadau gofal yng Nghymru.

Cynigir y swydd hon ar sail secondiad, sy'n cyfateb i 0.2 WTE, er mwyn ymdrin â'r canlynol:

- Rôl arweiniol mewn datblygu cyfeiriad strategol HTW yn ei waith parthed canfod, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau.
- Sicrhau bod rhaglen waith HTW yn adlewyrchu blaenoriaethau iechyd GIG Cymru a datblygiadau polisi Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg, e.e. gofal iechyd darbodus, gofal iechyd seiliedig ar werth ac ati.
- Cadeirio cyfarfodydd cyhoeddus (uchafswm o 6 y flwyddyn) a darparu arweinyddiaeth er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn. Mae hyn yn cynnwys paratoi a darllen cefndir, cysylltu â Grŵp Asesu HTW, staff HTW, a golygu'n derfynol Grynodebau Gwneuthurwyr Penderfyniadau HTW.
- Gweithio gyda staff HTW rhwng cyfarfodydd er mwyn mynd i'r afael ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n gofyn am ymateb cyflym.
- Cysylltu â staff HTW ar faterion yn ymwneud â pholisi a phroses.
- Bod yn aelod o, a mynychu, Grŵp Llywio HTW a grwpiau strategol eraill yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gais.
- Cysylltu gyda chadeiryddion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan a Grŵp Cyswllt NICE er mwyn sicrhau cysondeb o ran proses, rhannu gwybodaeth a chydweithio lle bo hynny'n bosibl.
- Cyfarfodydd (a chyfathrebu ychwanegol yn ôl y galw) gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre i drafod pynciau sydd o ddiddordeb i bawb.
- Rôl arweiniol mewn rhyngweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn arbennig clinigwyr, swyddogion gweithredol bwrdd iechyd a chomisiynwyr.
- Llefarydd cyhoeddus ar gyfer HTW wrth ymdrin ag ymholiadau gan y cyfryngau.
- Cyfranogi mewn cyfarfodydd yn genedlaethol a rhyngwladol ar ran HTW gyda chyrff sy'n gysylltiedig mewn asesu technoleg iechyd er mwyn cyflwyno gwybodaeth am waith HTW yn ôl y gofyn.
- Cyfrannu at werthusiadau o waith HTW a chyhoeddiadau perthnasol.

Manyleb person

Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn dal swydd arwyddocaol o fewn y GIG ac yn dallu dangos y cymwyseddau a'r sgiliau allweddol canlynol:

- Ymrwymiad personol cryf i egwyddorion arfarnu technoleg a'r gallu i drosi hyn yn weledigaeth effeithiol ar gyfer HTW.
- Dealltwriaeth o, a diddordeb mewn, datblygiad cyngor seiliedig ar dystiolaeth i GIG Cymru.
- Y gallu i gadeirio'n effeithiol grŵp amlddisgyblaeth mawr a chymhleth.
- Y gallu i arwain, dylanwadu, ysgogi a thrafod.
- Gwybodaeth ragorol am strwythurau a swyddogaethau GIG Cymru.
- Hygrededd proffesiynol o fewn eu maes arbenigol.
- Sgiliau cyfathrebu cryf.

Rhaid i ddeiliaid y swydd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl cyn, ac yn ystod, penodiad.

Atodiad 4 – Strwythur Llywodraethu a Chyfarfodydd HTW